

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

29 Tachwedd 2019

Ystafell Addysg

10.00 – 1.00

### Presennol:

Meri Huws (Is Lywydd)  
Eleri Twynog Humphries  
Gwilym Dyfri Jones  
Steve Williams  
Richard Houdmont  
Mike Cavanagh  
Liz Siberry

Lee Yale-Helms (Trysorydd)  
Hugh Thomas  
Yr Arglwydd Aberdâr  
Iwan Davies  
Carl Williams  
Quentin Howard

### Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

### Staff eraill:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodion)
---------------	----------------------------------------------------------------------

### Sylwebyddion:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Mary Ellis	IACALI

## CYFLWYNIAD – Archif Wleidyddol Gymreig

Cafwyd cyflwyniad diddorol a defnyddiol ar ddechrau'r cyfarfod gan Rob Phillips, Archif Wleidyddol Gymreig, ar waith a chasgliadau'r Archif

### 1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd

Diolchwyd i Rob Phillips gan y Cadeirydd am ei frwdfrydedd amlwg wrth gyflwyno ei waith, ac am roi ciplun i'r Ymddiriedolwyr o'r gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni gan yr Archif.

Nododd Meri Huws fod Rhodri wedi dychwelyd adre o'r rysbyty ac yn parhau i wella yn raddol. Roedd Meri felly yn parhau yn y gadair nes diwedd y flwyddyn galendr, gyda'r trefniadau'n cael eu hadolygu bryd hynny.

Estynnwyd llongyfarchiadau'r Ymddiriedolwyr i Owain Roberts ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr a Dirprwy Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus.

## **1.2 Ymddiheuriadau**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau i'w nodi.

## **1.3 Datgan Buddiannau**

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT, aelod o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn Gadeirydd WHELF ac Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Richard Houdmont fudd fel tiwtor cysylltiol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell yn Oriel Glan-yr-Afon.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## **1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 27 Medi a thrafod materion sy'n codi**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 27 Medi fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd. Cynigiwyd y cofnodion gan Hugh Thomas ac fe'u heiliwyd gan Iwan Davies.

### **Materion yn codi o'r cofnodion**

**Gwerthusiadau Blynyddol** – yn ystod cyfnod salwch Rhodri, mae Meri wedi mynd i'r afael â rhain, a'r unig werthusiad sydd ar ôl i'w gwblhau yw un Steve Williams. Mi fydd Meri a Steve yn ei gwblhau yn fuan.

**Oriel Gelf Gyfoes** - bydd trafodaethau'n parhau rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru ar y pwnc yma pan fydd Nicky Guy wedi dychwelyd o'i gwyliau. Mae'r Llyfrgell wedi ei hadnabod fel un o'r deg canolfan ar draws Cymru fedrai gynnig cartref i'r oriel, ac yn y cyswllt yma, mae trafodaethau ynglŷn ag uwchraddio Oriel Gregynog yn parhau.

**Penodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr** – cafwyd diweddariad ar y broses benodi gan Glerc y Bwrdd. Derbyniwyd 10 o geisiadau erbyn y dyddiad cau ar 22 Tachwedd, ac yn dilyn proses hidlo ar 28 Tachwedd, mae 6 wedi eu gwahodd i gyfweiliad ar 10 Rhagfyr – 5 menyw ac un dyn. Gan y bydd cyfnod Hugh Thomas, sy'n benodiad y Llyfrgell, yn dod i ben fis Hydref nesaf, cymeradwydd yr Ymddiriedolwyr benodi un aelod ychwanegol wrth gefn gyda'r cyfnod i gychwyn ar 1 Tachwedd 2020.

**Gŵyl y Gelli** - diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cadeirydd am enw cyswllt yn Llandeilo sydd wedi cytuno i noddi digwyddiad yn enw'r Llyfrgell yng Ngŵyl y Gelli yn 2020. Y bwriad yw cynnal darlith gan Peter Lord ar Salem a hanes celf Gymreig, ac mae trefnwyr yr ŵyl yn gefnogol iawn i'r bwriad.

**Digwyddiad Gŵyl Ddewi** - mae'r Llyfrgell yn awyddus i ystyried cynnal digwyddiad yn Llundain o gwmpas Gŵyl Ddewi yn 2020, yn debyg i'r un a gynhaliwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Mawrth eleni. Cynigiodd yr Arglwydd Aberdâr gynnal derbyniad yn Nhŷ'r Arglwyddi eto, ac i edrych am ystafell fwy na'r un a gafwyd y llynedd, ond cynigiwyd hefyd ystyried ei gynnal yng Nghanolfan Cymry Llundain neu yn Ysgol Gymraeg Llundain. Mi fydd y Tîm Gweithredol yn edrych ar yr opsiynau ac yn trafod y camau nesaf.

**Rhaglen Gyfalaf Cynnal a Chadw Adeiladau** - mae cyfreithwyr y Llyfrgell wedi anfon llythyr at gyfreithwyr Lucion a Kaefer ynghylch yr anghydfod asbestos, ond heb dderbyn unrhyw ymateb eto. Mi fydd yr Is Lywydd, Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Strategaeth Ryngwladol** – nid oes drafft o'r Strategaeth wedi ei chyflwyno i'r Bwrdd fel ag addawyd, gan fod y Prif Weithredwr wedi penderfynu aros tan i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Strategaeth Ryngwladol hwy ar 1 Chwefror 2020.

## **1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 27 Medi**

Cyfan wedi eu gweithredu neu wedi eu trafod o dan materion yn codi.

## **Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad**

### **2.1 Talu Cydnabyddiaeth i'r Llywydd**

Nododd y Cadeirydd, Meri Huws, ei bod yn datgan diddordeb yn yr eitem yma, ac yn camu o'r gadair tra bod y mater yn cael ei drafod. Yr oedd hefyd yn eithrio ei hun o'r trafodaethau. Atgoffodd yr aelodau y dylai unrhyw un arall oedd â diddordeb yn y mater hefyd ddatgan diddordeb ac eithrio eu hunain o'r drafodaeth.

Cymerodd y Prif Weithredwr y gadair am yr eitem yma, gan nodi ei bod yn arferol bellach i sefydliadau gynnig cydnabyddiaeth am rôl y Llywydd, a bod Amgueddfa Cymru yn gynharach eleni wedi cytuno i roi tal cydnabyddiaeth i'w Llywydd. Mae Siarter a Rheoliadau'r Llyfrgell yn caniatáu hyn, ac ni fyddai unrhyw wrthwynebiad gan y Comisiwn Elusennau a Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd gynnig cydnabyddiaeth i'r Llywydd pe bai'n penderfynu gwneud hynny.

Cafwyd trafodaeth fywiog ar y pwnc, gyda'r mwyafrif o'r aelodau o'r farn na ddylai'r Llyfrgell ystyried rhoi cydnabyddiaeth i'r Llywydd pan fo sefyllfa ariannol y Llyfrgell mor fregus, ac yn enwedig o ystyried y ffaith fod y Llyfrgell newydd anfon llythyr at y Dirprwy Weinidog yn gofyn am gyllid ychwanegol i'r Llyfrgell. Yn ogystal, mae angen ystyried beth fyddai ymateb y staff i hyn, o gofio bod cynnig codiad cyflog i staff yn fater heriol ar hyn o bryd.

Nodwyd hefyd nad oedd problem wedi codi yn y gorffennol i ddenu ymgeiswyr da am swydd y Llywydd a hynny heb gydnabyddiaeth.

Y teimlad unfrydol oedd nad priodol oedd darparu cydnabyddiaeth o swydd y Llywydd, a chynigiwyd hynny gan Hugh Thomas, fe'i heiliwyd gan Iwan Davies, a phleidleisiwyd o blaid y cynnig gan yr aelodau ac eithrio Meri Huws a Lee Yale-Helms, y ddau ohonynt yn ymatal rhag pleidleisio.

### **Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at y materion canlynol;

**Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy** – trafodwyd hyn yn y cyfarfod anffurfiol ar 28 Tachwedd. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd derbyn papur yng nghyfarfod mis Chwefror fyddai'n rhoi gwell eglurder ar beth yw'r gadwrfa, gyda ffocws ar y buddion i'r Llyfrgell, natur y ddarpariaeth ac oblygiadau'r cynllun. Cytunwyd y Byddai Owain Roberts yn paratoi papur.

**Codi arian** – nodwyd fod y £90,672 o gymynrodd sydd wedi ei dderbyn o ystâd y diweddar Gareth Lynn Reynolds yn un diamod. Nodwyd fod nifer o lythyron wedi eu hanfon at ddarpar gymynroddwyr a'r cam nesaf fydd cynnal digwyddiadau i ddenu cymynroddwyr potensial pan fydd y gwaith adeiladu wedi gorffen.

**Salem** - nododd y Prif Weithredwr fod y teulu yn falch dros ben fod y llun wedi ei brynu gan y Llyfrgell. Maent yn awyddus i fod yn rhan o ddiwyddiad yn y Llyfrgell yn y flwyddyn newydd, ac mae sgysiau yn digwydd ynglŷn â rhannu'r llun gyda sefydliadau eraill. Prynwyd y llun gydag arian o gymynrodd Geoffrey Powell.

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am adroddiad llawn o weithgareddau.

## **Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg**

### **4.1 Polisi, Strategaeth a Phroses Rheoli Risg**

Mae'r Polisi yn gosod allan agwedd y Bwrdd at wahanol lefelau o risg mewn gwahanol feysydd gwaith y Llyfrgell. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr gyda'r dadansoddiad a wneir yn yr adroddiad a diolchwyd i Emyr Phillips am baratoi'r Polisi.

Cytunwyd i dynnu allan y frawddeg *Yn fyr, y ffordd orau o ddisgrifio awydd cyffredinol y Llyfrgell am risg yw "canolig"*, a chynnwys cymal ynglŷn â lefel targed risg, a chynnwys sgôr risg wedi ei liniaru.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, mi fydd y Polisi yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 31 Ionawr am sylwadau llawn, a'i ail gyflwyno i'r Bwrdd yn dilyn hynny.

### **4.2. Cofrestr Risg**

Yn absenoldeb Pennaeth Cyllid a Menter, cyflwynwyd y Gofrestr Risg gan David Michael. Mi fydd y Gofrestr wedi ei diweddarau erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Ionawr i gynnwys mesurau lliniaru / risg sy'n weddill, ac yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

Gofynnwyd pam fod R4 yn oren, ac R3 yn goch, y naill yn ymwneud â dyfarniad cyflog, a'r llall yn ymwneud â chostau pensiwn. Eglurodd David fod risg costau pensiwn yn goch, gan nad oedd modd i'r Llyfrgell wrthod talu costau pensiwn, ond mi fedrai'r Llyfrgell wrthod talu dyfarniad cyflog, oedd yn gwneud y risg yn is felly.

### **4.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Datganiad Llesiant a Chanllawiau**

Eglurodd y Prif Weithredwr mai dyma'r tro cyntaf i'r Bwrdd dderbyn dogfen gynhwysfawr yn gosod allan cyfrifoldebau'r Llyfrgell i gwrdd ag oblygiadau'r Ddeddf Llesiant. Mae angen prif ffrydio hyn i holl weithgaredd y Llyfrgell, ac mae templed wedi ei greu i staff ei gwblhau wrth gychwyn unrhyw brosiect neu wasanaeth newydd.

Wrth gynllunio'r strategaeth nesaf, mi fydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan ganolog ohono, ac un o gyfrifoldebau'r Bwrdd yw sicrhau fod y Llyfrgell yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mae gwahoddiad wedi ei estyn i'r Comisiynydd ymweld â'r Llyfrgell yn y flwyddyn newydd i gael gweld sut mae'r Llyfrgell yn gweithredu gofynion y Ddeddf.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad o Brosiect Datgloi ein Treftadaeth Sain o dan y Ddeddf, a derbyniwyd adroddiad cadarnhaol iawn. Mae'r prosiect yn cyflawni llawer o ofynion y Ddeddf, ond fe'n beirniadwyd am beidio ystyried gofynion y Ddeddf ar ddechrau'r cyfnod cynllunio.

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn falch fod sylw priodol yn cael ei roi i'r maes yma, ac yn hapus i gymeradwyo'r Datganiad Llesiant, fydd yn cael ei osod ar wefan y Llyfrgell a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru. Cynigiodd Iwan Davies fod y Datganiad yn cael ei gymeradwyo ac fe eiliwyd hyn gan Gwilym Dyfri. Diolchwyd i Pedr am ei baratoi.

## **Adran 5 Materion Ariannol**

### **5.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd mis Hydref 2019**

Yn absenoldeb Emyr Phillips, cyflwynodd David Michael y cyfrifon, ac amlygwyd y pwyntiau canlynol gan yr Ymddiriedolwyr.

Mae angen edrych sut meddir cysoni incwm estynedig ar gyfer incwm prosiectau; mae hyn yn fater cyfrifyddu a bydd David Michael ag Emyr Phillips yn rhoi sylw iddo.

Gellir priodoli lleihad yn incwm Pendinas i'r gwaith adeiladu sy'n mynd ymlaen, sydd wedi golygu fod llai o ddigwyddiadau yn mynd ymlaen yn yr adeilad, ac o'r herwydd llai o ymwelwyr.

Nid yw'r siop ar-lein yn foddhaol, ac mae bwriad datblygu'r siop fel rhan o bartneriaeth Cymru Hanesyddol, ac i sefydlu siop ar-lein ar gyfer y sector.

Roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r cyfrifon.

### **5.2 Rhagolwg Ariannol, llythyr y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog, a Phrasiad y Cynllun Pensiwn**

Cyflwynwyd y papur gan y Trysorydd, sy'n deillio o drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 11 Hydref. Mae paratoi cynllun tymor canolig tair blynedd yn anodd iawn pan mae cyllid am flwyddyn yn unig sy'n cael ei gadarnhau, ac mae'r ffaith na fydd y gyllideb yn cael ei chyhoeddi bellach tan 16 Rhagfyr yn ychwanegu at y sefyllfa heriol.

O dan adran 8, *Crynodeb o faterion ariannol*, gwelir nad oes cyllid pendant wedi ei gytuno ar gyfer codiad cyflog, ac nid oes cyllideb mewn lle ar gyfer cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn. Yn y cyfarfod, penderfynwyd anfon llythyr at y Dirprwy Weinidog yn nodi nad yw sefyllfa ariannol y Llyfrgell yn gynaliadwy, ac mae ymateb y Dirprwy Weinidog i'w weld ym mhapurau'r Bwrdd.

Cytunwyd y byddai Meri Huws, Lee Yale-Helms, Pedr ap Llwyd a David Michael yn cael trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib i geisio pwysleisio difrifoldeb y sefyllfa a'r oblygiadau os na cheir cyllid ychwanegol.

Fe welir argymhelliad yn adran 5 i gyllido'r gorwariant o £170k trwy ddefnyddio arian preifat neu weithredu lleihad mewn gwariant. Gall adroddiad yr Adolygiad Teilwredig, sydd ar y gorwel, argymhell gweithredu lleihad mewn gwariant, ond byddai rhaid cynllunio unrhyw doriadau'n ofalus; dyna'r rheswm pam mae'n rhaid defnyddio'r cronfeydd preifat yn y tymor byr.

Taliad unwaith yn unig fyddai hwn, ac mae'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng incwm gweithredol a gwariant gweithredol. Cynigiodd Hugh Thomas fod y Bwrdd yn cyllido'r £170k yma o'r cronfeydd preifat, ac eiliwyd hyn gan Iwan Davies. Pleidleisiodd yr aelodau'n unfrydol i gefnogi'r cynnig.

Mae'r ail argymhelliad yn ymwneud â GIA, ac os bydd GIA yn cynyddu o £700k, yna mae'r Llyfrgell yn cytuno i godiad cyflog 2019, a'r cynnydd costau pensiwn sy'n ddyledus yn 2020, ac os oes angen, bod y cronfeydd preifat yn darparu £100k o gefnogaeth ychwanegol o gostau referniw i gynnal y cronfeydd cyhoeddus wrth gefn yn 2019/20.

Nododd y Trysorydd bod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol wedi gofyn am gynllun ariannol tymor canolig wedi ei gostio ers mis Medi 2018, ond ni dderbyniwyd y lefel priodol o fanylion. Wrth symud ymlaen i ddechrau ar ddrafftio'r strategaeth nesaf, rhaid mabwysiadu Cynllun Strategol sydd wedi ei gostio. Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn tybio y bydd yr Adolygiad Teilwredig yn argymhell y dylai'r Llyfrgell ganolbwyntio ar nifer o feysydd mwy cyfyng o ran ei blaenoriaethau, ac o'r herwydd gall Llyfrgell y dyfodol edrych yn wahanol iawn. O hyn allan, bydd angen i'r Bwrdd ystyried, cyn i'r Llyfrgell ofyn am ddefnyddio'r cronfeydd preifat, os oes modd mynd i'r afael â phethau mewn ffyrdd eraill e.e. mireinio gwasanaethau, toriadau a.y.b.

Gofynnodd y Bwrdd am gynllun senarios i gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Ionawr, ac i hwnnw gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Chwefror.

Nodwyd fod prisiad tair blynedd y Cynllun Pensiwn bellach wedi ei gwblhau, ac mae'n debygol y bydd cost at y dyfodol yn codi cyfraniad y cyflogwr o ryw 7%. Argymhelliad yr actwari oedd y dylai'r Llyfrgell dderbyn y codiad o 7%.

Mae'r prisiad yn dangos fod gan y Cynllun warged o £400k a dim diffyg hanesyddol. Mae'n gynllun gyda buddion diffiniedig cronedig 80th.

### **5.3 Craffu ar Gyfrifon Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2017 - 2018**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ddarllen yr adroddiad yma'n ofalus, gan ei fod yn cynnwys ymddangosiad yr Amgueddfa o flaen y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yma wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 1 Tachwedd, ac roedd Cadeirydd y Pwyllgor am dynnu sylw'r aelodau at dudalennau 51 - 54, a 71 - 79, sef y tudalennau'n ymwneud yn benodol â'r Amgueddfa.

### **5.4 Ymrwymadau'r Cronfeydd Preifat**

Mae'r papur a gyflwynwyd yn gosod allan yr ymrwymadau o'r cronfeydd preifat am y cyfnod 2019/20 tan 2028/29. Yr ymrwymiad mwyaf yw cost rhedeg Prosiect yr Archif Ddarlledu o 2024 ymlaen pan fydd arian CDL wedi dod i ben. Gall y costau fod hyd yn oed yn fwy na'r ffigyrau a ddangosir yma, gan nad yw costau rhedeg y canolfannau Clip yn gynnwysedig yn y ffigyrau yma.

### **5.5 Adroddiad Codi Arian**

Diolchodd y Prif Weithredwr i Richard Houdmont sy'n cadeirio is grŵp codi arian. Mae'r grŵp wedi gosod targed am y flwyddyn o £500k, ac mae £310k wedi ei dderbyn hyd yma. Mae addewid o gymynrodd sylweddol arall wedi ei wneud, ddylai sicrhau fod y targed yn cael ei gyrraedd.

Mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Tîm Gweithredol ystyried buddsoddi mewn adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer codi arian neu gaffael cymorth allanol; mae'r rhain yn parhau o dan ystyriaeth, ac mi fydd aelod o staff yn mynychu gweithdy codi arian wedi ei drefnu gan yr Amgueddfa yn Sain Ffagan ar 13 Rhagfyr. Bydd adroddiad o'r gweithdy hynny'n cael ei ddarparu i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf.

Nododd yr aelodau eu bod yn siomedig gyda ffigwr y Gronfa Gasgliadau a'r blychau rhoddion, a bod angen datblygu hyn; dylid hefyd ystyried buddsoddi mewn cyfarpar wrth y fynedfa/dderbynfa i alluogi medru cyfrannu'n ddigwyffwrdd (contactless). Ar y llaw arall, nodwyd bod ein cynllun cymynroddion yn hynod o lwyddiannus. Cytunwyd y dylid gwahodd Rhian Evans i gyfarfod mis Chwefror i roi sesiwn ymwybyddiaeth ar godi arian, ac i roi trosolwg ar sut mae'r Llyfrgell yn cymharu â sefydliadau eraill.

## **Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau**

### **6.1 Cofnodion Drafft Panel Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 07.10.19**

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor, Liz Siberry, fod yr aelodau wedi cael cyfle i weld Storfa 1 nos lau, ac wedi gweld yr heriau sy'n bodoli yn yr ardal yna.



Mewn ymateb i gwestiwn os byddai Ystafell Ddarllen y Gogledd yn ail agor i'r cyhoedd yn dilyn y gwaith adeiladu neu'n cael ei hail bwrpasu, nododd y Prif Weithredwr y gall bod angen symud Ystafell Ddarllen y De yna dros dro tra bod gwaith yn cael ei wneud yn yr ardal hynny. Mi fydd yn rhaid edrych yn ofalus ar nifer ein defnyddwyr yng nghyd destun cynnal dwy ystafell ddarllen, ac ystyried costau rhedeg dwy ystafell, ond mi fydd hyn yn ffurfio rhan o drafodaethau ehangach.

Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau rhywfaint o arian i uwchraddio Oriel Gregynog, gan obeithio bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2020.

Mi fydd y Pennaeth Ystadau newydd yn cychwyn yn ei swydd ym mis Ionawr. Diolchodd Liz i John Fraser, yr Ymgynghorydd Adeiladau, a staff o fewn y Llyfrgell, am sicrhau parhad y gwaith yn absenoldeb Pennaeth Ystadau.

## **6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 11.10.19**

Nid oedd gan Gadeirydd y Pwyllgor, Lee Yale-Helms, unrhyw beth i'w ychwanegu i'r cofnodion.

## **6.3 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 01.11.19**

Yr unig sylw a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor, Hugh Thomas, oedd bod yr archwiliad allanol ar Adeiladu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol yn cael ei symud i 2020/21, yn hytrach na digwydd yn 2019/20.

## **Adran 7 Unrhyw fater arall**

### **7.1 Papurau'r Bwrdd – darparu'n electronig**

Trafodwyd sut roedd yr aelodau am dderbyn papurau'r Bwrdd o hyn allan. Gellir parhau i'w darparu ar bapur yn unig, eu gosod ar wefan y Bwrdd, (fel sydd wedi ei wneud ar gyfer y cyfarfod yma), eu darparu ar ddyfeisiau personol yr aelodau neu ymchwilio i ddefnyddio pecynnau pwrpasol i'w darparu.

Roedd teimladau cymysg ymhlith yr Ymddiriedolwyr i hyn, gyda rhai yn ffafrio eu derbyn ar bapur ac eraill am eu derbyn yn electronig yn unig.

I symud y drafodaeth ymlaen, cynigiodd Clerc y Bwrdd gysylltu gyda'r aelodau ar e-bost i weld beth yw dewis pob un, ac yna adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd hefyd gosod fyny grŵp What's App ar gyfer aelodau iddynt fedru cysylltu gyda'i gilydd. Mi fydd Clerc y Bwrdd yn dilyn hyn i fyny cyn y cyfarfod nesaf.

## **Diolch**

Cyn gorffen y cyfarfod, diolchodd y Prif Weithredwr i'r aelodau am eu cefnogaeth dros y misoedd diwethaf. Mae'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol wedi datblygu'n sylweddol, ac yn well nag y mae wedi bod ers tro. Nododd fod ymroddiad Meri i'r gwaith yn ardderchog, ac mae ei chefnogaeth a'i chymorth cyson i bob agwedd o waith y Llyfrgell i'w ganmol.

**\*\* DIWEDD Y CYFARFOD \*\***